**Cofnodion Cyfarfod Agored Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2018 ym Mhrifysgol Bangor**

**Yn bresennol:**

**Aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) a oedd yn bresennol:**

Dr R Hussey
Mr R Alexander
Dr H Jones
Mr D Peace
Dr N Barry
Mr A Gardner
Mr J Wilson

**Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:**

Richard Bowen – Cyfarwyddwr (Dros Dro) yr Asiantaeth yng Nghymru
Helen George – Ysgrifenyddiaeth
Lucy Edwards – Ysgrifenyddiaeth
Patrick Miller trwy Skype ar gyfer Papurau FSAW 18-03-04 ac 18-03-05
Simon Dawson yn bersonol ar gyfer Papur FSAW 18-03-06
Catherine Bowles trwy Skype ar gyfer Papur FSAW 18-03-07

## 1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod agored y Pwyllgor, a rhoi gwybod i'r rheiny a oedd yn bresennol am y siaradwyr gwadd a fyddai'n cyflwyno papurau.

## 2. Datganiadau o fuddiannau

2.1 Fe nododd aelodau'r Pwyllgor y datganiadau canlynol o fuddiannau:

- Dywedodd David Peace ei fod yn gadeirydd anweithredol grŵp Hall Mark, ac yn gynghorydd busnes i fusnes bwyd fferm yn Sir Fynwy.

- Dywedodd Norma Barry ei bod yn aelod o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ac mae hefyd yn Llysgennad Gwin i Gymru fel rhan o'r rôl hon.

- Dywedodd Ruth Hussey ei bod yn Llywodraethwr y Sefydliad Iechyd, Comisiwn LSE/Lancet ar 'Ddyfodol y GIG' ac Aelod o Fwrdd Cynghori Ysgol Ymchwil Iechyd y Cyhoedd.

- Dywedodd Ronnie Alexander ei fod yn aelod o Fwrdd Cydnabyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

- Dywedodd James Wilson ei fod yn aelod o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, yn Gyfarwyddwr anweithredol Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr (SEAFISH) ac yn berchen ar fusnes pysgod cregyn.

- Dywedodd Alan Gardner ei fod yn cadw da byw gyda diadell fechan o ddefaid.

2.2. Nodwyd pob datganiad. Ni wnaeth unrhyw aelod dynnu'n ôl o'r trafodaethau.

**3. Cofnodion y cyfarfod agored diwethaf (Papur FSAW 18/03/01)**

3.1 Derbyniwyd cofnodion drafft y cyfarfod agored a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd fel cofnod cywir o'r trafodaethau. Cytunwyd y dylid cyfieithu'r cofnodion terfynol a'u rhoi ar y wefan. **Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

**4. Adroddiad gan y Cadeirydd (Papur FSAW 18/03/02)**

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad ysgrifenedig yn cynnwys crynodeb o drafodaethau yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd a oedd yn cynnwys trafodaethau ar yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, Rheoleiddio Ein Dyfodol (ROF), Ymwrthedd Gwrthficrobaidd, Cadw Gwyliadwriaeth a Gwyddoniaeth Gymdeithasol. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi diwrnod datblygu WFAC a gynhaliwyd ym mis Ionawr, lle'r oedd y Pwyllgor yn cynnal sesiynau briffio ar Ddeall Defnyddwyr, ROF ac Iechyd Porthladdoedd yng Nghymru a thrafodaethau gyda Chyfarwyddwr arweiniol newydd yr Adran Amgylchedd a Materion Gwledig yn Llywodraeth Cymru.

4.2 Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y cyfarfod a gynhaliwyd, ddechrau mis Ionawr, gyda nifer o Weinidogion Llywodraeth Cymru lle trafodwyd materion ROF ac ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) a chyfarfod ar wahân a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru i drafod safbwyntiau Cymreig rhaglen ROF.

4.3 Rhoddodd y Cadeirydd hefyd ddiweddariad ar adolygiad y Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn nodi'r materion a drafodwyd yn ystod digwyddiad strategol y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Ionawr.

**5. Diweddariad gan y Cyfarwyddwr (Papur FSAW 18/03/03)**

5.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr dros dro Cymru ei adroddiad rheolaidd i'r Pwyllgor, gan roi gwybod i'r Pwyllgor am ymgynghoriad a lansiwyd yn ddiweddar ar ddiwygiadau i God Ymarfer Cyfraith Bwyd Cymru, arwyddo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Awdurdod Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd i helpu i lywio gwaith yr ASB ar atchwanegiadau bwyd a bwyd newydd, a rhoi gwybod am gyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar adolygiad tair blynedd o

weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru ac adolygiad blynyddol gweithredu system apelio'r Cynllun.

5.2 Roedd yr adroddiad hefyd yn diweddaru’r Pwyllgor ar y cynnydd o ran dod i gytundeb rhwng pedwar gweinyddiaeth y Deyrnas Unedig (DU) ar yr angen i gynnal fframwaith ledled y DU ar gyfer meysydd polisi lle mae hyn yn cael ei gynnal gan ddeddfwriaeth yr UE ar hyn o bryd.

5.3 Mewn diweddariad llafar, rhoddodd y Cyfarwyddwr Dros Dro wybod am adolygiad a gomisiynwyd gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban o safleoedd lle mae cynhyrchion cig yn cael eu prosesu a'u storio yn y DU. Daw'r adolygiad yn sgîl digwyddiadau dros y chwe mis diwethaf sy'n ymwneud â busnesau mawr yn y diwydiant cig nad ydynt yn cydymffurfio â rheolau hylendid i ddiogelu defnyddwyr a sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i ymddiried mewn bwyd. Hysbyswyd y Pwyllgor am gylch gorchwyl yr adolygiad, ei gwmpas a'r amserlen arfaethedig. Nododd yr Aelodau bwysigrwydd archwilio rôl cynlluniau sicrwydd fel rhan o'r adolygiad.

## 6. Diweddariad Gwyddoniaeth (Papur FSAW 18/03/04) a Diweddariad gan Gadeirydd y Cyngor Gwyddoniaeth (Papur FSAW 18/03/05)

6.1 Ystyriodd yr Aelodau'r papurau o safbwyntiau personol yr Athro Guy Poppy, Prif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB a'r Athro Sandy Thomas, Cadeirydd Cyngor Gwyddoniaeth yr ASB.

6.2 Y papur cyntaf oedd adroddiad blynyddol y Prif Gynghorydd Gwyddonol a oedd yn nodi ei farn ar wyddoniaeth yr ASB ac yn trafod y cyfleoedd a'r heriau sydd o'n blaenau. Yr ail bapur oedd cyflwyniad gan Gadeirydd Cyngor Gwyddoniaeth yr ASB a oedd yn darparu gwybodaeth a diweddariadau ar y cynnydd a wnaed ar flaenoriaethau pob un o dair ffrwd waith y Cyngor (gallu a sicrwydd gwyddoniaeth, risg ac ansicrwydd a risgiau'r system fwyd a sganio gorwelion). Roedd y cyflwyniad hefyd yn manylu ar sut mae'r Cyngor yn gweithio a'i berthynas â'r ASB.

6.3 Yn ei ystyriaethau o feysydd y gall fod angen i'r ASB ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- dylid nodi'r heriau cywir sydd angen canolbwyntio arnynt yn y dyfodol;
- ei bod yn bwysig edrych ar bethau yn strategol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu at y meysydd cywir
- croesawu bod yr ASB wedi mynd ar drywydd awgrym, a gyflwynwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor, mewn perthynas â gwerth secondiadau gwyddonol.

6.4 Yn fwy cyffredinol, croesawodd y Pwyllgor y ffaith y byddai'r ASB yn cynnal nifer o adolygiadau i sicrhau bod dull gwyddonol yr ASB yn parhau'n gadarn, yn enwedig mewn perthynas ag ymadael â'r UE. Yn hyn o beth, gan werthfawrogi bod y ddau bapur penodol hyn yn dod o bersbectif personol, dywedodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol bod yn gwbl eglur ynglŷn ag effaith ddisgwyliedig dull gwyddonol yr ASB. Dywedodd y Pwyllgor y byddai o fudd mapio sut y mae rhwydweithiau gwyddonol a phrosiectau braenaru *(pathfinder)* yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cyfrannu at ddull gwyddonol cyffredinol yr ASB, ac roedd yn awyddus i helpu i ddatblygu'r rhwydweithiau ymhellach ar ôl cael rhagor o wybodaeth am y gweithgarwch presennol yng Nghymru. Nododd aelodau'r Pwyllgor bwysigrwydd sicrhau parhad wrth recriwtio yn y gymuned wyddonol gan sicrhau bod yr ASB yn gallu cael mynediad at arbenigedd gwyddonol rhagorol.

6.5 Yn ei gasgliadau, croesawodd y Pwyllgor y ddau adroddiad.

**7. Llaeth Yfed Amrwd (Papur FSAW 18/03/06)**

7.1 Croesawodd y Pwyllgor y papur dros dro a oedd yn rhoi diweddariad a throsolwg o welliannau o ran cyflawni rheolaethau swyddogol ar gyfer llaeth yfed amrwd. Roedd y papur hefyd yn cynnwys adroddiad ar gynnydd yn dilyn adolygiad polisi 2015, canfyddiadau cychwynnol yr ymchwil economaidd/cwsmeriaid diweddaraf a diweddariad ar asesu risg llaeth yfed amrwd.

7.2 Clywodd y Pwyllgor am y newidiadau diweddar mewn perthynas â llaeth yfed amrwd, fel yr amlinellir yn y papur, gan gynnwys cynnydd yn lefel y llaeth yfed amrwd sy'n cael ei yfed, cynnydd mewn cynhyrchwyr llaeth yfed amrwd yng Nghymru a Lloegr, gan fynegi pryder ynghylch y cynnydd mewn achosion o glefydau dynol sy'n gysylltiedig â llaeth yfed amrwd. Ar ddechrau'r drafodaeth, cafodd y Pwyllgor ei atgoffa o'r gwahanol ofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â llaeth yfed amrwd yn y Deyrnas Unedig (DU) ac ar gyfer cynhyrchu llaeth yfed amrwd yn y DU. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o'i gyngor blaenorol i'r Bwrdd a oedd yn nodi y dylid cyflwyno labelu gorfodol a llymach ar gyfer cynhyrchu llaeth yfed amrwd yng Nghymru.

7.3 Cynhaliwyd trafodaethau ar oblygiadau defnyddio llaeth yfed amrwd i wneud ysgytlaeth a hufen iâ a'r goblygiadau posibl mewn perthynas â defnyddwyr sy'n agored i niwed. Ymhellach, ystyriodd y Pwyllgor oblygiadau ychwanegu gwahanol siwgrau at laeth yfed amrwd. Roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai ychwanegu rhywfaint o siwgr greu amgylchiadau a fyddai'n caniatáu i rai pathogenau dyfu yn gyflymach, ac roeddent yn meddwl y dylid archwilio hyn ymhellach.

7.4 Yn benodol, cododd Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- roedd pryder am y trefniadau samplu a gynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig mewn perthynas â pha mor ddibynadwy yw profion dangosyddion organebau. Roedd y Pwyllgor o'r farn, gan nad oedd profion organebau dangosyddion yn profi am bathogenau penodol, eu bod yn cynrychioli rhagfynegydd risg gwael. Yn y cyd-destun hwn, cafodd y system brofi fwy cadarn sydd ar waith yng Ngogledd Iwerddon, sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd yno gael eu proses samplu pathogenau eu hunain, ei nodi a'i chroesawu;

- roedd pryder y gall unigolion fod yn yfed llaeth yfed amrwd a chynhyrchion llaeth yfed amrwd heb ddeall y risgiau i'w hiechyd yn llawn;

- er y gallai fod yn ddewis personol i yfed llaeth yfed amrwd, gallai'r dewis hwnnw arwain at oblygiadau i unigolion eraill, gan gynnwys y rheiny a allai fod yn agored i niwed ac y gellid effeithio arnynt wedyn, a hynny oherwydd lledaeniad eilradd.

7.5 Dywedodd y Pwyllgor y byddai angen i'r papur diweddaru nesaf fod yn ymwybodol o ofynion deddfwriaethol ar wahân sy'n bodoli yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. O ran Cymru, roedd y Pwyllgor wedi atgoffa pawb am ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd â'r nod o wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Roedd yr Aelodau'n ymwybodol bod y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu mewn ffordd gynaliadwy a sicrhau bod y penderfyniadau y maent yn eu gwneud yn atal ac yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol. Wrth werthfawrogi nad yw'r ASB yn gorff a enwir yn y Ddeddf, cofiodd y Pwyllgor fod yr ASB wedi cytuno i gyd-fynd â nodau'r ddeddfwriaeth yn flaenorol. Roedd y Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o ofynion Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 sy'n nodi'r gofyniad am asesiadau effaith iechyd gorfodol mewn amgylchiadau penodol a gofynnodd i'r swyddogion ystyried y gofyniad yng nghyd-destun yr enghraifft hon.

7.6 Nododd y pwyllgor bryder, a fynegwyd gan randdeiliaid a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, mewn perthynas ag anawsterau wrth roi sgôr ar gyfer gwerthu uniongyrchol o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd gorfodol yng Nghymru. Dywedodd swyddogion gorfodi awdurdodau lleol a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ei bod yn her rhoi sgôr i weithredwyr sy'n darparu llaeth yfed amrwd lle nad oes cynllun rheoli diogelwch yn seiliedig ar HACCP ar waith.

7.7 I gloi, croesawodd y Pwyllgor y papur a gofyn i'r sylwadau uchod gael eu nodi'n fanylach yn y papur a fyddai'n cael ei ystyried gan y Bwrdd ym mis Mehefin.

## 8. Strategaeth Ryngwladol (Papur FSAW 18/03/07)

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor y papur a oedd yn rhoi diweddariad am yr adolygiad o strategaeth ryngwladol bresennol yr ASB a'r llwybr arfaethedig ar gyfer cyflawni dull mwy strategol a chydlynol o ran ymgysylltiad rhyngwladol yr ASB. Nododd y Pwyllgor y rhesymeg y tu ôl i waith rhyngwladol yr ASB a'r hyn y mae'r Pwyllgor yn anelu at ei gyflawni ar lefel ryngwladol wrth i'r DU ymadael â'r UE.

8.2 Wrth nodi y bydd yr ASB yn adolygu ei Strategaeth Ryngwladol er mwyn canfod gwell ffyrdd o ymgysylltu'n rhyngwladol yn y dyfodol, a chydlynu hynny'n well, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- bydd angen i strategaeth y dyfodol ymgorffori'r gwahanol ofynion datganoledig, ac o ran Cymru yn arbennig bydd angen cofio am agenda twf rhyngwladol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â bwyd a diod;

- dylai'r ASB flaenoriaethu ei gweithgarwch yn ôl risg yn y system fwyd;

- dylai fod yn hawdd nodi'r effeithiau a'r manteision hynny o fewn y strategaeth ddiwygiedig.

I grynhoi, croesawodd y Pwyllgor y papur a chydnabod cyfraniad gwerthfawr yr ASB i ddiogelwch bwyd byd-eang. Dywedodd y Pwyllgor ei fod yn edrych ymlaen at weld y Strategaeth Ryngwladol ddiwygiedig yn datblygu.

**9. Adborth gan Rwydweithiau'r Pwyllgor**

9.1 Dim i'w nodi.

**10. Sesiwn Holi ac Ateb**

10.1 Caiff yr holl faterion a godwyd fel rhan o'r sesiwn eu hadlewyrchu yn y sylwadau uchod.

**11. Unrhyw fater arall**

11.1 Nododd y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod agored nesaf yn cael ei gynnal ar 14 Mehefin 2018.

**Camau Gweithredu**

| Mynegai | Camau gweithredu | Erbyn | Statws |
|---|---|---|---|
| Paragraff 3.1 | Cofnodion cyfarfod mis Tachwedd i'w cyfieithu a'u rhoi ar y wefan. | 30 Ebrill 2018 | Wedi'i gwblhau |